# 2.3.1. (c) Deddfwriaeth i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

cbac wjec

Mae **deddfwriaeth** wedi'i chynllunio i ddiogelu unigolion a hyrwyddo arfer gwrthwahaniaethol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diogelu pobl sy'n meddu ar un neu fwy o'r naw nodwedd warchodedig benodol rhag gwahaniaethu.

**Oedran – Anabledd – Priodas a phartneriaeth sifil – Beichiogrwydd a mamolaeth – Hil – Crefydd neu gred – Rhyw – Ailbennu rhywedd – Cyfeiriadedd rhywiol**

## Termau Allweddol

**Tegwch**
**Parch**
**Cydraddoldeb**
**Urddas**
**Ymreolaeth**
**Deddfwriaeth**
**Diogelu**
**Cefnogaeth**

## Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Nod y ddeddfwriaeth hon ac, yn benodol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS: *Deprivation of Liberty Safeguards*) yw helpu pobl sydd ddim yn gallu cynnal eu hannibyniaeth, eu hurddas na'u hawl i ryddid. Mae'r trefniadau hyn yn helpu unigolion agored i niwed i gynnal eu hawl i urddas a chydraddoldeb.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn amlinellu hawliau dynol sylfaenol ac egwyddorion cydraddoldeb.

**Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas, Ymreolaeth**

Mae **codau ymarfer** a gaiff eu llunio gan gyrff rheoleiddio yn nodi'r safonau ymarfer a'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a'u cyflogwyr, e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru – Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a Chod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Nod **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yw gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a llesiant gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu – bydd cyfle gwell i bobl gael dweud eu dweud o ran y gofal a'r gefnogaeth a gânt. Mae hefyd yn hyrwyddo'r cymorth amrywiol sydd ar gael yn y gymuned, i leihau'r angen am gefnogaeth mwy ffurfiol, wedi'i chynllunio.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017** yw'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a darparu dysgu ychwanegol. Mae'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar anghenion personol – mae'n nodi anghenion yn gynnar, yn rhoi gweithdrefnau cefnogaeth a monitro effeithiol ar waith ac yn addasu ymyriadau i sicrhau y caiff y canlyniadau a ddymunir eu cyflawni.